# Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Arolwg Archwiliadau Gwerth am Arian

*Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

**Hydref 2000**

# Cynnwys

Cyflwyniad 1

Rhaglen waith wreiddiol 2

Cynnydd yn erbyn y rhaglen waith wreiddiol 3

Gwaith ychwanegol 4

Effaith ariannol 5

# Arolwg o Archwiliadau Gwerth am Arian

## Cyflwyniad

1. Mae'r memorandwm hwn yn nodi'r gwaith gwerth am arian yr wyf wedi ei gyflawni hyd yma ar ran y Pwyllgor Archwilio a'r Cynulliad. Y cyd-destun yw'r papur a ddarperais i aelodau fis Hydref diwethaf ar fy *Rhaglen Gwaith Gwerth am Arian Derfynol ar gyfer 1999-2000 a 2000-01*. Mae'r memorandwm hwn yn ystyried yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn y rhaglen honno yn nhermau adroddiadau a gyflwynwyd a gwaith sydd ar y gweill, yn ogystal ag ystyried y gwaith ychwanegol yr wyf wedi ei gyflawni ar gyfer y Pwyllgor nad oedd yn rhan o'r rhaglen wreiddiol. Mae hefyd yn edrych ar effaith ariannol fy ngwaith hyd yma.

2. Dylid ystyried y papur hwn ochr yn ochr â'r memorandwm ar wahân yr wyf wedi ei gyflwyno ar fy mlaenraglen waith ar gyfer 2001-02 a thu hwnt i hynny, sy'n nodi ar gyfer y Pwyllgor sut yr wyf yn bwriadu adeiladu ar y dechrau da yr ydym wedi ei wneud gyda'n gilydd a'i gario i'r dyfodol.

## Rhaglen waith wreiddiol

3. Elwodd fy rhaglen derfynol ar gyfer 2000-01 o'r sylwadau a'r awgrymiadau a wnaethpwyd gan aelodau ar fy nghynigion dechreuol yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor ym mis Medi y llynedd. Roeddwn yn falch o allu ymaddasu i farn yr aelodau yn y ffordd hon. Dangosodd y rhaglen derfynol nifer o newidiadau o'r fersiwn gynt, gydag astudiaethau wedi eu hychwanegu at y rhaglen (megis rhagnodi cyffuriau), eu diwygio o ran cwmpas (roedd archwiliad o'r sector Addysg Bellach i ganolbwyntio ar reoli'r ystâd yn hytrach nag ar gaffael) a'u symud ymlaen (trefniadau adeiladau'r Cynulliad) neu eu gwthio'n ôl (esgeulustod clinigol). Roedd cydbwysedd da i'r rhaglen a ddeilliodd o hyn, gyda chymysgedd da o feysydd pwnc a mathau o archwiliad.

4. Bydd aelodau yn cofio i'r Pwyllgor benderfynu, yn y cyfarfod hwnnw ym mis Medi, pan ystyriwyd fy amcangyfrif ar gyfer 2000-01, dyrannu £1 miliwn i'm rhaglen gwerth am arian – y gwerth uchaf o'r tri opsiwn yr oeddwn wedi eu cyflwyno iddynt. Roedd hyn yn gynnydd sylweddol ar yr hwb cychwynnol o £245,000 y cytunwyd arno gan swyddogion y Swyddfa Gymreig ar gyfer y flwyddyn flaenorol, sef 1999-2000, cyn bod y Cynulliad mewn sefyllfa i bennu ei flaenoriaethau ei hun. (Roeddwn yn ddiolchgar am £50,000 ychwanegol a ryddhawyd yn dilyn hynny gan Gr•p Cyllid y Cynulliad). Yn naturiol roeddwn wrth fy modd gyda phenderfyniad y Pwyllgor; fel yr esboniais ar y pryd, mae darpariaeth ar y lefel hon yn caniatáu i mi gynnal fy ymholiadau i ddyfnder a chwmpas sylweddol.

5. Roedd y £1 miliwn o gyllid ar gael i mi o 1 Ebrill 2000 (petai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol

wedi neilltuo adnoddau ychwanegol i Archwilydd Cyffredinol Cymru cyn hynny, byddai hynny wedi golygu cymhorthdal o Senedd San Steffan, ac felly nid oedd caniatâd i wneud hynny). Felly dim ond ar y dyddiad hwnnw yr oedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol mewn sefyllfa i ddechrau defnyddio staff ychwanegol, ac i ymgymryd â'r gwaith rhagarweiniol manwl yr oedd ei angen i gwmpasu astudiaethau yn y meysydd a ddetholwyd i'w harchwilio – er mwyn cynllunio yn union sut yr oeddent i gael eu cyflawni ac er mwyn trafod yr archwiliadau gyda'r rheini a oedd yn gyfrifol am y gwariant. Bydd y cyntaf o'r adroddiadau a ariennir gan y cynnydd hwn yn yr adnoddau a ddyrennir yn barod yn ddiweddarach yr hydref hwn. Ymgymerir ag adroddiadau eraill mwy yn 2000-01 ond ni chânt eu cwblhau a'u cyhoeddi tan y flwyddyn ariannol ganlynol.

## Cynnydd yn erbyn y rhaglen waith wreiddiol

6. Gyda chymorth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gallaf gyflwyno adroddiad ar gorff sylweddol o waith, wedi ei gyhoeddi a gwaith sydd ar y gweill. Rwyf wedi gallu darparu deiet amrywiol o ddeunydd i'r Pwyllgor Archwilio; mae hyn wedi helpu'r Pwyllgor o'u rhan hwy i gynnal cyfarfodydd adeiladol ers iddo ddod i fodolaeth.

7. Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa ar 1 Hydref 2000 ar gyfer pob un o'r pynciau a nodwyd ym memorandwm Hydref diwethaf.

| ***Pwnc*** | ***Cynnydd*** |
|---|---|
| **1999-2000** | |
| Cadw: Diogelu a gwarchod treftadaeth adeiledig Cymru | Cyhoeddwyd adroddiad ar 29 Hydref 1999, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 18 Tachwedd 1999 |
| Rheoli'r broses o greu fersiwn fwy o Awdurdod Datblygu Cymru | Cyhoeddwyd adroddiad ar 4 Mai 2000, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 11 Mai 2000 |
| Cymorth gan Awdurdod Datblygu Cymru i fusnesau brodorol | Cyhoeddwyd adroddiad ar 9 Mai 2000, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 11 Mai 2000 |
| Morglawdd Bae Caerdydd | Cyhoeddwyd adroddiad ar 5 Gorffennaf 2000, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 13 Gorffennaf 2000 |
| Gwerth gorau | Cwblhawyd yr adroddiad |

| | |
|---|---|
| Materion disgyblu’r heddlu | Cwblhawyd yr adroddiad |
| Trefniadau adeiladau’r Cynulliad | Mae’r adroddiad yn cael ei gwblhau nawr bod penderfyniad terfynol ar leoliad wedi ei wneud |
| Cymorth gan Awdurdod Datblygu Cymru ar gyfer LG | Cwblhawyd yr adroddiad |
| **2000-01** | |
| Ymdrin â honiadau sy’n ymwneud ag esgeulustod clinigol | Mae’r adroddiad yn cael ei ddrafftio |
| Cyffuriau a ragnodir | Mae’r adroddiad yn cael ei ddrafftio |
| Rheoli ystâd yr NHS yng Nghymru | Gwaith maes ar y gweill |
| Rheoli’r ystâd Addysg Bellach yng Nghymru | Gwaith maes ar y gweill |
| Mentrau i wella sefyllfa’r digartref a digartrefedd | Gwaith rhagarweiniol wedi dechrau |
| Dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben | Gwaith maes ar y gweill |
| Gweinyddu cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd | Archwiliad ar fin dechrau |
| Trosolwg o adroddiadau’r Comisiwn Archwilio | I ddechrau Ion/Chwef 2001 |

8. Mae’r tabl yn dangos y gwnaethpwyd dechrau gwych ar gyflwyno adroddiadau gwerth am arian uchel eu hansawdd ar ystod eang o bynciau i’r Cynulliad Cenedlaethol. Mae pob un o’r astudiaethau y dywedais y byddwn yn cynnal gwaith arnynt ym 1999-2000 wedi eu cwblhau ac eithrio’r astudiaeth sy’n ymwneud â threfniadau adeiladau’r Cynulliad lle gohiriwyd yr adroddiad am resymau ymarferol hyd nes yr oedd penderfyniad wedi ei gymryd ar y lleoliad terfynol.

9. Ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau eto ar waith yr oeddwn wedi ei glustnodi i’w gyflawni yn 2000-01. Fel yr amlinellwyd uchod, yn rhannol mae hyn oherwydd yr amser aros angenrheidiol cyn y gellid cymhwyso’r adnoddau ychwanegol a ryddhawyd ar gyfer y flwyddyn honno. Roedd y cynnydd o ran cyllid ar gyfer gwaith gwerth am arian yn 2000-01 dros y flwyddyn flaenorol yn sylweddol, gan adlewyrchu symudiad y Cynulliad i’w flwyddyn lawn gyntaf o fywyd. Mewn gwrthgyferbyniad, mae fy

Amcangyfrif ar gyfer 2001-02 yn cynnig lefel gyson o arian, mewn termau gwirioneddol, ar gyfer gwaith gwerth am arian. Ond hyd yn oed o fewn amgylchedd ariannu mwy sefydlog, bydd rhywfaint o amser rhwng dechrau gweithio ar bwnc arbennig a darparu'r cynnyrch terfynol. Byddwn yn disgwyl felly na chaiff nifer dda o astudiaethau a ddechreuaf yn ystod unrhyw flwyddyn eu cwblhau tan y flwyddyn ganlynol.

## Gwaith ychwanegol

10. Rwyf wedi cyflawni rhywfaint o waith nad oedd yn fy mlaenraglen: adroddiad graddfa lawn ar fygythiad y Mileniwm i systemau electronig; a chymorth i'r Pwyllgor Archwilio ar sesiynau tystiolaeth nas rhagwelwyd.

11. Tyfodd fy adroddiad ar *The Millennium Threat: is Wales ready?* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 1999, o'r corff sylweddol o waith a gyflawnwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar y pwnc ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Mae'n enghraifft dda o'r buddiannau a all ddeillio o allu tynnu ar adnoddau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol i gyflwyno archwiliad "ar y cyd", ar gost cymharol isel. Mae fy memorandwm ar y flaenraglen waith arfaethedig sydd gennyf ar gyfer 2001-02 yn cynnwys manylion pellach am feysydd a fyddai o ddiddordeb i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol hefyd.

12. Penderfynodd y Pwyllgor, gyda chytundeb Cyfrifon Cyhoeddus Pwyllgor T•'r Cyffredin, neilltuo tair sesiwn i archwilio pynciau a ddechreuodd fel adroddiadau'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol:

- cynhaliwyd dwy sesiwn (16 Rhagfyr a 27 Ionawr) i ystyried adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol ar Addysg Bellach yng Nghymru (cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Mai 1999, ychydig cyn i'r Cynulliad ymgymryd â'i bwerau). Cymerodd y sesiwn gyntaf dystiolaeth oddi wrth y Swyddogion Cyfrifo perthnasol, o'r Cynulliad a'r Cyngor Cyllido. Gosododd yr ail gynsail buddiol i'r Pwyllgor allu treiddio'n ddyfnach i bwnc drwy gymryd tystiolaeth oddi wrth eraill am yr ochr honno o gyflwyno gwasanaeth sy'n ymwneud â'r cyhoedd – yn yr achos hwn Prifathrawon Colegau a Chadeiryddion Byrddau Llywodraethwyr; a
- cymerodd sesiwn 15 Mehefin dystiolaeth ar Gofnod y Trysorlys ar Goleg Trydyddol Gwent (deilliodd hyn o adroddiad gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, a chymerwyd y dystiolaeth gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus; Cofnod y Trysorlys yw ymateb swyddogol y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus).

13. Un o'm cyfrifoldebau fel Archwilydd Cyffredinol yw cynnig cymorth i'r Pwyllgor Archwilio wrth gynnal a chyflawni ei swyddogaethau. Mae hyn yn elfen bwysig o'm rôl ac mae'n golygu diweddaru a briffio'r Pwyllgor cyn y gwrandawiad, hysbysu'r Pwyllgor am ei adroddiad yn dilyn y gwrandawiad a, maes o law, cynnig cyngor pellach lle bo angen ar ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Archwilio. Ni chynlluniwyd felly ar gyfer yr holl waith yr wyf wedi ei gyflawni wrth gynorthwyo'r Pwyllgor ar gyfer y sesiynau uchod yn fy rhaglen wreiddiol.

14. Rwyf yn fwy na pharod i ymateb i ddymuniadau'r Pwyllgor yn y ffordd hon. Ond o fewn cyllideb

benodol, ychwanegol, mae gwaith nas cynlluniwyd yn golygu bod angen arallgyfeirio adnoddau o’r rhaglen a gynlluniwyd.

## Effaith ariannol

15. Wrth ystyried fy rhaglen yr adeg hon y llynedd, pwysleisiodd y Pwyllgor y pwysigrwydd a roddai ar ddatblygu potensial fy ngwaith er mwyn nodi arbedion ariannol ac roedd fy rhaglen ar gyfer 2000-01 yn cynnwys yn benodol ystod o bynciau a ganolbwyntiwyd ar y rhagolygon ar gyfer sicrhau arbedion. Mae hyn yn arbennig o wir am y ddwy astudiaeth ar reoli ystâd a’r astudiaeth ar ragnodi cyffuriau.

16. Bydd aelodau yn sylweddoli mai fy rôl yw nodi’r cwmpas ar gyfer arbedion ac argymell sut y gellid eu cyflawni pan gânt eu nodi a’u hamlygu gan adroddiadau’r Pwyllgor ac ymatebion y Cynulliad. Y corff a archwilir fydd yn gyfrifol am sicrhau’r arbedion hynny a hwyrach y bydd yr arbedion llawn yn cymryd cryn amser i gronni.

**Enghreifftiau o Arbedion Posibl Cyfrifadwy**

**(Ceir y manylion ym mharagraffau 17 ac 18 isod)**

| | **Arbedion Unigryw**<br><br>**£** | **Arbedion Blynyddol Rheolaidd Posibl**<br><br>**£** |
|---|---|---|
| Cadw | 58,000 | 70,000 |
| Addysg Bellach – Caffael | _ | 1,500,000 |

| | | |
|---|---|---|
| Awdurdod Datblygu Cymru:<br><br>Costau Ynni<br><br>Rheoli Gwagle<br><br>Costau Storio | | <br><br>30,000<br><br>125,000<br><br>27,000 |
| Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru [1] | 23,000 | _ |
| **CYFANSYMIAU** | **81,000** | **1,752,000** |

[1] *cafwyd arbediad o waith archwilio ariannol*

17. Rwyf yn nodi isod rai enghreifftiau sy'n dangos sut mae fy ngwaith wedi arwain at arbedion cyfrifadwy, neu sut y dylai sicrhau arbedion yn y dyfodol:

- yn dilyn gwrandawiad y Pwyllgor Archwilio ar fy adroddiad ar *Ddiogelu a gwarchod treftadaeth adeiledig Cymru*, ysgrifennodd Prif Weithredwr Cadw i'r Pwyllgor ar effaith y newidiadau sy'n debygol o ddeillio o'm hargymhellion. Yn seiliedig ar y llythyr hwn, rwyf yn asesu y bydd yr effaith gyffredinol yn elw unigryw o tua £58,000 yn ogystal â buddiannau rheolaidd pellach o tua £70,000 y flwyddyn. Yn ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor, cymeradwyodd Cabinet y Cynulliad farn Cadw a chadarnhaodd y byddai fy argymhellion yn cael eu gweithredu yn 2000-01;
- wrth ystyried gwaith y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar Addysg Bellach yng Nghymru, ategodd y Pwyllgor Archwilio gasgliad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol bod cyfleoedd ar gyfer arbedion ariannol sylweddol o welliannau i arferion caffael y sector addysg bellach. Derbyniodd y sector y byddai arbediad cymhedrol o ddau y cant hyd yn oed ar y bil caffael yn creu arbedion o £1.5 miliwn y flwyddyn, ac yn fy marn i dylai arbedion o'r radd honno fod yn gyflawnadwy. Byddaf yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gyflawniadau'r sector wrth sicrhau'r arbedion hyn;
- roedd fy adroddiad ar greu Awdurdod Datblygu Cymru mwy yn cynnwys adran a oedd yn canolbwyntio ar y cyfleoedd a oedd gan yr Awdurdod i sicrhau arbedion pellach a chreu incwm ychwanegol. Dyma oedd yr amcangyfrifon bras o'r arbedion posibl o ran costau rhedeg blynyddol gros: £30,000 mewn costau ynni; £125,000 o reoli gwagle yn well; £27,000 mewn costau storio; a swm nas cyfrifwyd o ddatblygu trefniadau rhannu desgiau. Byddaf yn cael gwybod oddi wrth yr Awdurdod ymhen amser raddau'r arbedion a gyflawnant o ganlyniad; a
- daeth fy adroddiad ar Forglawdd Bae Caerdydd i ben drwy argymell y dylai'r Cynulliad, yn dilyn dirwyn y Gorfforaeth Ddatblygu i ben, ystyried adfer unrhyw arian a fyddai wedi bod yn ddyledus gan y Gorfforaeth, a bod cyfleoedd ar gyfer sicrhau'r refeniw uchaf posibl y bydd

amgylchedd newydd y Bae yn ei greu. Byddaf yn dychwelyd at y pynciau hyn yn y dyfodol mewn gwaith y bwriadaf ei gyflawni yn y maes hwn.

18. Gall y gwaith y mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei wneud i mi ar ardystio ac adrodd yn ôl ar gyfrifon hefyd arwain at effeithiau ariannol (er mai isgynnyrch o'r gwaith hwn ydyw, gyda'r prif nod o roi barn ar y cyfrifon). Er enghraifft:

- arweiniodd fy adroddiad o gyfrifon 1999-2000 Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru at adfer £23,000 yr oedd sefydliad arall wedi codi yn ormodol arno; a
- nododd archwiliad o gyfrifon 1999-2000 Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru nifer o achosion o ddiofalwch wrth weithredu rheolaethau dros daliadau teithio a chynnal i staff. Nid oedd y symiau yn ddigon sylweddol i alw am adroddiad ar y cyfrifon ond, yn dilyn fy archwiliad, cynhaliodd archwiliad mewnol yr Amgueddfa arolwg pellach, manylach, er mwyn canfod graddau'r broblem; gofynnwyd am ad-daliad, lle y bo'n briodol, oddi wrth aelodau o'r staff.

19. Mae hefyd yn werth nodi y gall archwiliadau gwerth am arian ac ariannol yn aml gael effaith gadarnhaol sylweddol o'r math nad yw'n addas ar gyfer ei gyfrif mewn termau ariannol. Gall gwelliannau o ran ansawdd, effeithiolrwydd neu foddhad cwsmeriaid – sef gwneud mwy ar lefel adnoddau arbennig – fod o leiaf yr un mor bwysig â chyflawni arbedion drwy ddarbodusrwydd – sef gwneud yr un peth am lai. Hefyd, mae lledu'r rhesymau am y gwastraff yn ehangach – i reolwyr y cleient neu yn gyhoeddus drwy'r Pwyllgor Archwilio – yn atgyfnerthu effaith ataliol archwiliadau. Er enghraifft:

- arweiniodd sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor Archwilio ar Addysg Bellach yng Nghymru ac ar Goleg Trydyddol Gwent at gadarnhad gan gyrff perthnasol ledled y sector bod nifer o argymhellion rheoli ansoddol wedi cael eu gweithredu neu y byddent yn cael eu gweithredu. Er enghraifft, bellach mae Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru yn ymgymryd ag asesiadau ffurfiol rheolaidd o berfformiad cyffredinol pob sefydliad, gan gynnwys perfformiad ariannol. Ac mae'r Cynulliad, wrth ymgynghori â'r Cyngor Cyllido, bellach wedi gosod y fframwaith ar gyfer y sicrwydd sydd ei angen arnynt ar ansawdd y broses reoli yn sefydliadau'r sector; mae'r Cyngor Cyllido wedi sefydlu sut y byddant yn gwneud eu rhan i fodloni'r gofynion;
- canfu fy adroddiad ar *Ddiogelu a gwarchod treftadaeth adeiledig Cymru* ei bod yn anodd i aelodau'r cyhoedd adnabod yr eiddo hynny a gaiff gymorth grant y mae ganddynt hawl mynediad iddo. Cytunodd Cadw i weithredu fy argymhellion i wella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd – gan gynnwys defnyddio'r Rhyngrwyd – am eiddo a gaiff gymorth grant y mae ganddynt hawl i ymweld ag ef; a
- ym mis Chwefror 2000 cymerodd y Pwyllgor Archwilio dystiolaeth ar adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfrifon 1998-99 Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru lle amlygodd daliad afreolaidd o fwy na £30,000 i aelod o'r staff a oedd yn gadael. Roedd adroddiad dilynol y Pwyllgor yn nodi'r gwersi i'w dysgu o'r digwyddiad, a gwnaeth nifer o argymhellion i'r Cynulliad, yr Amgueddfa a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

20. Mae’r dystiolaeth uchod yn amlygu’r dechrau da yr wyf wedi ei wneud wrth sicrhau arbedion ariannol ac effeithiau buddiol eraill. Rwyf yn ailadrodd fy mod yn benderfynol o ddatblygu’r agwedd hon ar fy ngwaith ymhellach yn y dyfodol.

21. Rwyf yn ddiolchgar am gymorth y Pwyllgor ac aelodau eraill o’r Cynulliad. Mae aelodau wedi codi llawer o syniadau a phwyntiau yr wyf wedi bod yn falch o ymchwilio iddynt yn fy ngwaith, ac edrychaf ymlaen at barhau i dderbyn eu cyfraniadau.